# Ymolchi Babanod a Phlant Ifanc yn Fwy Diogel mewn Bath



- Casglwch bopeth fyddwch chi ei angen yn barod cyn amser bath, oherwydd bydd arnoch angen aros gyda'ch babi neu blentyn ifanc bob amser.
- Mae seddi bath yn wych i gynnal eich babi yn y bath, ond NID ydynt yn declynnau diogelwch – ni ddylid gadael babi / plentyn ifanc ei hun mewn un gan y gall lithro allan o'r sedd.
- Peidiwch byth â gadael dŵr yn y bath heb neb yn ei oruchwylio. Gwnewch yn siŵr na all babi neu blentyn ifanc fynd i mewn i'r ystafell heb oruchwyliaeth.
- Profwch dymheredd y dŵr yn y bath bob amser, dylai'r dŵr fod yn gynnes, nid poeth. Profwch y dŵr gyda'ch garddwn neu benelin a'i gymysgu'n dda fel nad oes rhannau poeth.
- Cadwch y babi / plentyn ifanc oddi wrth y pen ble mae'r tapiau gan y gallant fod yn boeth a gallai'r babi / plentyn ifanc agor y tap a llosgi.
- Os bydd eich plentyn yn llosgi, rhowch y llosg mewn dŵr oer neu dan ddŵr oer sy'n rhedeg. Dylech gael sylw meddygol brys neu fynd i'r Adran Achosion Brys. Gall y GIG 111 roi cyngor meddygol 24 awr y dydd, ffoniwch 111.
- Rhannu bath: peidiwch â gadael eich babi / plentyn ifanc yng ngofal plentyn arall.
- Peidiwch byth â gadael eich babi / plentyn ifanc heb oruchwyliaeth. Gallai gadael eich babi / plentyn ifanc ei hun, hyd yn oed am eiliad neu ddwy, fod yn ddigon o amser iddynt anafu eu hunain neu foddi hyd yn oed.
- Gwagiwch y bath yn syth ar ôl ei ddefnyddio bob amser.
- Os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth, trafodwch gyda'ch Bydwraig, Ymwelydd Iechyd neu Feddyg Teulu.



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

north wales Safeguarding BOARD

# Safer Bathing for Babies and Young Children



- Get everything you need ready before bath time, because you will need to stay with your baby or young child at all times.
- Bath seats are great for supporting your baby in the bath but they are NOT safety aids – a baby or young child should not be left alone in one as they can slip out of the seat.
- Never leave a running bath unattended. Ensure a baby or young child cannot enter the room without supervision.
- Always check the temperature of the water in the bath, the water should be warm, not hot. Check it with your wrist or elbow and mix it well so there are no hot patches.
- Keep the baby or young child away from the tap end of the bath as taps can become hot. Young children could turn the tap on and burn themselves.
- If your child is scalded, put the affected area in or under cold water. Seek early medical attention or visit the Emergency Department. NHS 111 can provide 24-hour medical advice, call 111.
- Bath sharing: do not leave your baby or young child in the care of another child.
- Never leave your baby or young child unsupervised. Leaving your baby or young child alone, even for a few moments, could be enough time for them to hurt themselves or even drown.
- Always empty the bath immediately after use.
- If you are unsure of anything please discuss this with your Midwife, Health Visitor or GP.



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

north wales Safeguarding BOARD